**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu - Llywodraethu Ysgolion

**Committee Room 4, Guildhall, Swansea**

**Dydd Llun, 25 Medi 2017 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd F M Gordon (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L James | D. Helliwell | L Gibbard |
| J A Raynor | | |
| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | | |
| D Anderson-Thomas | | |

**Swyddog(ion)**
Kathryn Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cefnogi Dysgwyr
Michelle Roberts, Swyddog Craffu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): J W Jones a/ac L J Tyler-Lloyd

---

1 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2 **Datgeliadau O Fuddiannau Personol A Rhagfarnol**

Heb ei ddatgan

3 **Adroddiad Effaith Ymchwiliad Llywodraethu Ysgolion a'r diweddaraf ar y cynnydd a wnaed**

Roedd y Cynghorydd Jennifer Raynor, Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Kathryn Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cefnogi Dysgwyr yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno adroddiad effaith/dilynol ar Lywodraethu Ysgolion.

Codwyd a thrafodwyd y materion canlynol wrth ystyried yr adroddiad:

- **Argymhelliad 1** - *Datblygu dull cyngor eang ar gyfer llenwi'r bylchau mewn sgiliau a nodwyd gan gyrff llywodraethu, naill ai drwy drosglwyddiadau, cyfnewidiadau neu drwy baru llywodraethwyr newydd â sgiliau a phrofiad penodol.*
  Roedd y panel yn cydnabod na chytunwyd ar yr argymhelliad hwn ond fe'u hysbyswyd y cafwyd gweithredu y maes hwn. Mae'r Uned Llywodraethwyr wedi creu pecyn cymorth hunanwerthuso sydd ar gael i ysgolion er mwyn nodi bylchau mewn sgiliau. Gwnaed cyrff llywodraethu'n ymwybodol o declyn hunanwerthuso Llywodraethwyr Cymru ac fe'u cynghorwyd i gynnal hunanwerthusiad.

Roedd y panel yn meddwl ei bod yn bwysig sicrhau ein bod yn rhoi gwybod am yr hyn y gallent ei gynnig er mwyn cynorthwyo cyrff llywodraethu.
Ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol yn adolygu'r broses benodi ar gyfer llywodraethwyr awdurdodau lleol ac mae adroddiad yn cael ei baratoi i Aelod y Cabinet ei gyflwyno i'r cyngor. Wrth ystyried cynigion, bydd angen i gyrff llywodraethu ddarparu asesiad hunanwerthuso i nodi'r bwlch mewn sgiliau er mwyn aildrefnu penodi llywodraethwyr yr awdurdod lleol gyda'r sgiliau a nodwyd gan bob corff llywodraethu unigol.

- **Argymhelliad 2** - *Llunio llyfryn bach ar gyfer llywodraethwyr sy'n darparu arweiniad syml ar gyfer eu rôl.*
  Credwyd bod ERW wedi darparu un ond nid yw'r llyfryn wedi'i gwblhau eto felly mae'r Uned Llywodraethwyr wedi creu llyfryn bach. Dosbarthwyd enghraifft o'r llyfryn ar gyfer llywodraethwyr ysgolion i aelodau'r panel yn y cyfarfod. Roedd y panel yn hapus i weld bod hyn wedi'i ddatblygu a bydd yn cael ei anfon at lywodraethwyr newydd ac yn cael ei gynnwys ar wefan y cyngor.
- **Argymhelliad 3** - *Adolygu'r wybodaeth a ddarperir i lywodraethwyr ysgolion gydag ERW, Estyn a Llywodraethwyr Cymru gyda'r bwriad o sicrhau ymagwedd a rennir sy'n osgoi dyblygu.*
  Hysbyswyd y panel fod ERW wedi cynnal adolygiad a bod Abertawe wedi cymryd rhan ynddo.  Hefyd, mae Llywodraethwyr Cymru wedi cynnal adolygiad yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar Ddiwygio Llywodraethu Ysgolion: Fframwaith Rheoleiddio. Mae canlyniad yr ymgynghoriad hwn wedi'i ohirio ar hyn o bryd o ganlyniad i lefelau uchel yr ymatebion.
  Mae Abertawe yn aros am ganlyniad ac argymhellion yr arolygiad hwn cyn gall yr agwedd hon ddatblygu.
  Dywedodd y panel fod ganddynt adolygiad o wybodaeth gan Abertawe gyda 'a' fach. Roeddent yn falch bod dolenni ar ein gwefan i ERW, Llywodraethwyr Cymru a Fy Ysgol Leol ond yn meddwl bod angen mwy o esboniad yn y dolenni i helpu llywodraethwyr i ddeall eu pwrpas a sut gallent fod o gymorth iddynt.
- **Argymhelliad 4** - *Darparu templed data safonol i benaethiaid a'u hannog i'w ddefnyddio.*
  Roedd y panel yn cydnabod bod pecynnau data cyffredinol ar gael ac yn falch o glywed bod gan ERW enghraifft o adroddiad y Pennaeth. Roedd y panel yn teimlo y byddai mynediad i'r fath hon o wybodaeth yn helpu i rymuso llywodraethwyr drwy ddatblygu gwell ddealltwriaeth o wybodaeth gymhleth. Hoffai'r panel weld hyn yn cael ei nodi ar wefan y cyngor gyda dolen sy'n dangos lle i gael hyd i'r wybodaeth hon.
- **Argymhelliad 5** - *Gweithio gydag ERW i ddarparu gwybodaeth am yr holl gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i lywodraethwyr mewn un lle.*
  Hoffai'r panel weld hyn yn cael ei nodi a dolen i dudalennau perthnasol ERW o wefan y cyngor. Sylweddolodd y panel hefyd nad oes gan ERW ardal benodol ar y wefan ar gyfer llywodraethwyr.
- **Argymhelliad 6** - *Symud o hyfforddiant yn y Ganolfan Ddinesig i fodel hyblyg sy'n cyfuno corff llywodraethu cyfan, ysgolion clwstwr ac e-ddysgu.*
  Croesawodd y panel y pecyn hyblyg o hyfforddiant a oedd ar gael a'r hyfforddiant pwrpasol y gellir ei drefnu ar gyfer ysgolion ac ar draws clystyrau. Roedd y panel yn falch o glywed bod cyfarfodydd tymhorol wedi'u cynnal gydag ymgynghorydd herio dros Lywodraethu Ysgolion a'r Pennaeth Cefnogi Ysgolion er mwyn nodi cyrff llywodraethu yr oedd angen cymorth arnynt.

Roedd y panel yn teimlo nad oedd llawer o lywodraethwyr yn ymwybodol o hyn, yn enwedig yr ymagweddau hyfforddi pwrpasol wedi'u targedu sydd ar gael at ddibenion penodol a hefyd fod hyn yn gallu cael ei nodi ar wefan y cyngor.

- **Argymhelliad 7** - *Datblygu log dysgu ar-lein i lywodraethwyr fel eu bod yn gallu rheoli eu hyfforddiant a'u datblygiad eu hunain.*
  *ac*
- **Argymhelliad 8** - *Ystyried sut gallai hyfforddiant gorfodol newydd i lywodraethwyr helpu llywodraethwyr i feddwl am sut i reoli eu hyfforddiant a'u datblygiad eu hunain.*
- Clywodd y panel fod cronfa ddata'r llywodraethwyr wedi'i hadolygu a'i bod yn cael ei rheoli drwy system wahanol, a bod llawer o'r gwaith wedi'i gyflawni i drosglwyddo data o'r cronfeydd data blaenorol a bod angen gwneud mwy o waith er mwyn datblygu log dysgu ar-lein i lywodraethwyr er mwyn iddynt allu rheoli hyfforddiant a datblygiad eu hunain. Roedd y panel yn falch o glywed bod y system newydd bellach yn cael ei gweithredu a'i bod yn llawer mwy hwylus i'w defnyddio. Rydym bellach yn awyddus i weld cam nesaf y datblygiad: y log dysgu ar-lein ar gyfer llywodraethwyr.
- **Argymhelliad 9** - *Annog yr holl lywodraethwyr i ymwneud ag ymweliadau craidd yr hydref.*
  Clywodd y panel na chytunwyd ar hyn oherwydd nad oedd yn bosib cynnwys yr holl lywodraethwyr yn ymweliadau craidd yr hydref. Fodd bynnag, mae'r uned llywodraethwyr yn bwriadu cyflwyno hyfforddiant i lywodraethwyr yn yr hydref fel bod llywodraethwyr yn deall proses yr ymweliad craidd yn well. Roedd y panel yn falch o glywed bod Ymgynghorwyr Herio yn mynd i gyfarfod corff llywodraethu'r holl ysgolion coch ac ambr.
- **Argymhelliad 10** - *Cynnal ymgyrch i hyrwyddo rôl y llywodraethwyr ar gyfer gweithwyr y sector preifat a phartneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.*
  Clywodd aelodau'r panel fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgyrch i dargedu gweithwyr o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus. Bydd Abertawe'n defnyddio'r ymgyrch hon ac yn cynnal ymgyrch leol ar y cyd.
- **Argymhelliad 11** - *Ysgrifennu at Gadeirydd y Llywodraethwyr a Phenaethiaid bob ysgol i hyrwyddo'r pwyntiau arfer da sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn.*
  Hoffai'r panel weld dull lle gellir rhannu arfer rhwng y llywodraethwyr a'r cyrff llywodraethu.
- **Argymhelliad 12** - *Ysgrifennu at bob llywodraethwr ysgol gan ddiolch iddynt am ei waith ar ran y cyngor ac amlygu'r rhestr o'r hyn y dylai llywodraethwyr ysgol ei ddisgwyl'.* Gofynnodd yr aelodau a oedd hyn wedi'i gylchredeg i'r holl lywodraethwyr gan nad oeddent wedi'i weld. Awgrymodd y panel fod hwn yn cael ei gylchredeg i lywodraethwyr yn flynyddol a'i fod yn ffurfio rhan o'r llyfryn (yn Argymhelliad 2) ar gyfer llywodraethwyr newydd. Hoffai'r panel hefyd weld copi o'r llyfryn ar-lein.
- **Argymhelliad 13** - *Cymryd camau ychwanegol i hysbysebu'r gwaith da a wneir gan lywodraethwyr a chyrff llywodraethu.*
  Roedd aelodau'r panel yn teimlo bod hyn yn bwysig oherwydd ei fod yn ymwneud â rhannu arfer cadarnhaol. Dywedodd Pennaeth yr Uned Llywodraethwyr y bydd hi'n ymchwilio i ffordd o sicrhau bod deilliannau cadarnhaol arolygiadau Estyn sy'n berthnasol i gyrff llywodraethu ar gael ar wefan y cyngor.

- **Argymhelliad 14** - *Symleiddio'r wybodaeth am lywodraethwyr ysgol ar wefan y cyngor a ddylai ddarparu'r dolenni ar gyfer yr holl wybodaeth gyffredinol i wefan Llywodraethwyr Cymru.*
  Roedd y panel yn teimlo y dylai gwefan y cyngor gael ei defnyddio i nodi ffynonellau gwybodaeth defnyddiol ar gyfer llywodraethwyr er mwyn arbed amser iddynt orfod chwilio am yr wybodaeth hon eu hunain.
- **Argymhelliad 15** - *Atgoffa pob ysgol y gallai'r hyfforddiant ar gyfer corff llywodraethu llawn ac ysgolion clwstwr gael ei drefnu ar gais.*
  Gweler ateb yn argymhelliad 6
- **Argymhelliad 16** - *Cynnal seminar ar gyfer llywodraethwyr awdurdodau lleol i archwilio'u rolau wrth rannu arfer.*
  Hysbyswyd y panel nad yw'n addas i dargedu grŵp penodol o lywodraethwyr i dderbyn hyfforddiant llywodraethwyr yn annibynnol. Gellir trefnu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer aelodau etholedig sy'n llywodraethwyr ysgol os bydd angen.

4 **Y Panel i drafod cynnydd ac i gytuno ar adborth**

Trafododd y panel a daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

- Roedd y panel yn teimlo bod cynnydd da wedi'i wneud gyda llawer o'r argymhellion ond mae angen i'r wybodaeth hon gael ei nodi'n well.
- Roedd y panel yn cydnabod bod llawer o wybodaeth ar gael ar gyfer llywodraethwyr felly roedd hyn yn pwysleisio'r angen i'w helpu a'u cyfeirio at yr wybodaeth bwysicaf. Mae hyn yn cynnwys dolenni gwell ar gyfer y wefan a bod gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y llywodraethwyr yn cael ei nodi'n well, ar y wefan ac ar gyfer cyrff allanol.
- Gofynnodd y panel i Aelod y Cabinet sicrhau bod yr eitemau canlynol wedi cael ac yn cael eu cylchredeg i lywodraethwyr a'u bod ar gael ar wefan y cyngor.
  - Llyfryn ar gyfer llywodraethwyr
  - Yr hyn y dylai llywodraethwyr ei ddisgwyl (Atodiad B yr adroddiad gwreiddiol)
  - Sicrhau her effeithiol: Cyngor arfer da i gadeiryddion llywodraethwyr a phenaethiaid
- Roedd y panel yn falch o glywed bod yr Ymgynghorwyr Herio'n mynd i gyrff llywodraethu ysgolion sydd wedi'u nodi'n goch neu'n ambr yn nhymor yr hydref.

Yn dilyn y cyfarfod hwn:

a) Bydd Cynullydd y panel yn anfon llythyr at aelod y cabinet gan grynhoi'r drafodaeth ac yn amlinellu barn ac argymhellion y panel.
b) Bydd unrhyw faterion sy'n weddill mewn perthynas â'r darn hwn o waith yn cael eu hategu drwy Banel Craffu Perfformiad Ysgolion.